# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion AC(2) 10-06

### Dyddiad y Cyfarfod: 23 Tachwedd 2006
### Amser y Cyfarfod: 9.30am – 12.30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd

#### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Alun Cairns | Dwyrain De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Irene James | Islwyn |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Catherine Thomas | Llanelli |

#### Swyddogion yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Jeremy Colman | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Paul Dimblebee | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Geraint Morgan | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Rob Powell | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Tolley | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Mike Usher | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

## Tystion

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Pennaeth yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth y Cynulliad |
| Gerry Quarrell | Pennaeth Mynediad a Nawdd Cefn Gwlad, Llywodraeth y Cynulliad |
| Angharad Huws | Mynediad a Nawdd Cefn Gwlad, Llywodraeth y Cynulliad |
| Roger Thomas | Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc Pwyllgor |
| Daniel Collier | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyno, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Denise Idris Jones. Nid oedd unrhyw ddirprwyon. Bu i Leighton Andrews ddatgan buddiant gyda golwg ar eitem 4 ac ‘roedd yn absennol ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem. Bu i Alun Cairns ddatgan buddiant gyda golwg ar eitem 3 gan ei fod yn berchennog tir yr oedd llwybr cyhoeddus yn ei groesi.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf
## Papur: AC(2) 09-06(mins)

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion ei gyfarfod a gynhaliwyd 12 Hydref 2006.

## Eitem 3: Mynediad i’r cyhoedd i gefn gwlad
## Papur: AC(2) 10-06(p1)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gareth Jones, Cyfarwyddwr yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a Roger Thomas, Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

## Camau gweithredu:

Cytunodd Gareth Jones i ddarparu’r canlynol i’r Pwyllgor:

- Dadansoddiad o’r gefnogaeth grant i hybu mynediad i gefn gwlad a ddarparwyd ar gyfer grwpiau Cymunedau yn Gyntaf trwy awdurdodau lleol.
- Y nifer o wardeiniaid a gyflogir gan awdurdodau mynediad lleol i atal ymddygiad gwael yng nghefn gwlad.
- Manylion y grwpiau anabl a gynrychiolir ar fforymau mynediad lleol.

Cytunodd Roger Thomas i ddarparu’r canlynol i’r Pwyllgor:

- Data ar y nifer o gyfranogwyr yn y fenter ‘Cerdded Llwybr Iechyd ’ sy’n parhau i gyfranogi.
- Prif nodweddion y Côd Cefn Gwlad a’r camau mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi’u gweithredu i godi ymwybyddiaeth o’r Côd.
- Manylion pam fod y canllawiau ar fynediad agored i gefn gwlad ‘By all reasonable means’ wedi’i gyhoeddi un flwyddyn yn hwyrach yng Nghymru nag yn Lloegr.
- Manylion y cynlluniau grant sy’n annog mynediad gan bobl anabl i warchodfeydd natur.

**Eitem 4: Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Gontract Merlin – Galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes trwy Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**
**Papur: AC(2) 10-06(p2)**

4.1 Fe ystyriodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ‘Gontract Merlin – Galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes trwy TGCh’ a thrafododd gyngor yr Archwilydd Cyffredinol. Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon.

**Sesiwn Breifat**

**Eitem 5: Adroddiadau drafft y Pwyllgor Archwilio Amseroedd Aros y GIG: adroddiad dilynol ac Archwiliad Ariannol o lywodraeth ganolog a chyrff y GIG yng Nghymru: 2006**
**Papur: AC(2) 10-06(p3), AC(2) 10-06(p4)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiadau drafft.

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**
**Tachwedd 2006**